Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ymateb gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

i'r

Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Heneiddio a Phobl Hŷn: Ymchwiliad i Hawliau Dynol a Phobl Hŷn

Ionawr 2018

Am ragor o wybodaeth am yr ymateb hwn cysylltwch â:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
03442 640 670

Ynglŷn â'r Comisiynydd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru, gan sefyll i fyny drostynt a siarad ar eu rhan. Mae'n gweithio i sicrhau bod y rheini sydd yn agored i niwed ac mewn perygl yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn sicrhau bod gan yr holl bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Yr hyn y mae pobl hŷn yn ei ddweud sydd fwyaf pwysig iddyn nhw sy'n llywio gwaith y Comisiynydd ac mae eu llais wrth galon popeth mae hi'n ei wneud. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo - nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn:

- Hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog yr arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Ymchwiliad i Hawliau Dynol a Phobl Hŷn

Yr wyf yn falch fod y Grŵp Seneddol Hollbleidiol yn ymddiddori i'r fath raddau yn hawliau dynol pobl hŷn. Hoffwn gychwyn drwy wneud ambell sylw cyffredinol ynghylch hawliau:

- Mae gan hawliau ystyr a chyd-destun bob amser, ond maent ar eu pwysicaf ar yr adegau hynny pan fydd pethau'n anodd
- Mae hawliau'n berthnasol o safbwynt ymarferol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar lefel strategol, ar lefel darparwyr gwasanaeth ac ar lefel unigolion, a dylid eu defnyddio mewn modd ataliol ac yn ymatebol
- Mae hawliau yn bwysig i bobl hŷn ac mae arnynt eisiau i'r wladwriaeth barchu, diogelu a hyrwyddo eu hawliau, yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw achosion pan fydd eu hawliau'n cael eu torri

Y tair egwyddor hyn yw sylfaen fy null o ymdrin â hawliau pobl hŷn ac maent yn llywio fy ngwaith o ran parchu, diogelu a hyrwyddo'r hawliau hynny.

Roedd Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn[1] yn ystyriaeth greiddiol wrth sefydlu fy swydd, ond hyd yn oed heb y gofyniad hwn i ganolbwyntio ar hawliau, byddwn yn dal i hyrwyddo'r dull hwn o weithio. Yr wyf yn Gomisiynydd sy'n seiliedig ar hawliau, ac yr wyf wedi datgan yn eglur bod ymgorffori hawliau wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn gwella canlyniadau i'r unigolyn ac i bwrs y wlad.

Gwelais, yn sgil fy ymwneud â phobl hŷn, fod llawer o bobl hŷn yn deall eu hawliau ac yn awyddus i fod yn rhan o drafodaethau ynghylch yr hawliau hynny, ond gwelais hefyd nad yw nifer sylweddol o bobl hŷn yn sylweddoli o hyd sut mae hawliau dynol yn effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd.

Defnyddiais fy ymwneud â phobl hŷn i gynghori Llywodraeth Cymru ar ei Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2014. Mae'r datganiad yn defnyddio lleisiau pobl hŷn i amlinellu'r hyn sy'n

bwysig iddynt, yr hawliau sydd ganddynt dan yr offerynnau cyfreithiol presennol a sut y gallai'r hawliau hyn fod yn cael eu torri.[2]

Yr hyn a ddaeth yn eglur i mi trwy gyfrwng y broses hon oedd bod yn rhaid inni wneud hawliau yn real i bobl hŷn. Yn aml mae hawliau dynol yn cael eu hystyried yn rhywbeth haniaethol, ond y gwir yw eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl a gallant gynorthwyo i wella canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Cafwyd anhawster canfod iaith sy'n cysylltu â phobl o ddifrif ac sy'n ystyrlon iddynt.

Astudiaeth Achos: Ysbyty Dydd Penrallt, Llanidloes

Mae staff Ysbyty Dydd Penrallt wedi ymgorffori'r Datganiad o Hawliau ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru fel rhan o'u hathroniaeth gofal "Blaenoriaethu Pobl". Mae'r dull hwn o weithredu'n cydnabod pwy yw person, ei fod yn cael ei werthfawrogi, yn cael dewis ac yn parhau i fod yn rhan o'i gymuned. Mae gan bob claf asesiad person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ei deimladau ac yn blaenoriaethu beth sy'n bwysig iddo.

Daeth menyw i mewn i'r ysbyty dydd ac nid oedd yn gallu symud llawer ac roedd yn wynebu risg uchel o gael codwm. Cynhaliodd y staff asesiad o'i hanghenion corfforol, meddyliol, ysbrydol a chymdeithasol. Drwy wrando ar beth oedd yn bwysig iddi, canfu'r staff nad oedd yn teimlo'n hyderus bellach i gerdded i'r caffi i gyfarfod ei ffrindiau. Roedd hyn wedi arwain at ei gwneud yn unig ac yn ynysig. Oherwydd hynny nid oedd ganddi gymaint o archwaeth bwyd ac roedd hynny wedyn yn arwain at lefelau is o egni a llai o symud.

Gyda'i chaniatâd hi, trefnodd staff yr ysbyty dydd gefnogaeth ychwanegol iddi, i'w helpu i fynd yn ôl i gyfarfod ei ffrindiau. Gofynnwyd i ffrindiau, teulu a gwirfoddolwyr alw heibio iddi ar eu ffordd â mynd â hi gyda nhw. Drwy weithredu fel hyn a gwrando ar beth oedd yn bwysig iddi, daeth y staff o hyd i ateb syml a allai gael effaith ddramatig ar ei bywyd hi.

Ystyrir yn eang fod dull datganoledig gwahanol wedi'i fabwysiadu tuag at gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, o'i gymharu â Llywodraeth y DU, fel y nododd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.[3] Dyma rai enghreifftiau o'r dull gweithredu hwn:

- Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i weithredu Adran 153 Deddf Cydraddoldeb 2010, a oedd yn gorfodi rhagor o ddyletswyddau cydraddoldeb ar y sector cyhoeddus, ac yr wyf yn croesawu'r ffaith fod Deddf Cymru 2017 yn datganoli rhagor ar elfennau o'r Ddeddf Cydraddoldeb mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.[4]
- Cymru hefyd oedd y genedl gyntaf yn y DU i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[5] mewn deddfwriaeth ddomestig drwy gyfrwng Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.
- Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn wedi'u hymgorffori yn y ddau ddarn o ddeddfwriaeth sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[6] a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.[7]
- Mae Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru Llywodraeth Cymru yn dwyn ynghyd hawliau pobl hŷn mewn un ddogfen ac fe'i defnyddiwyd fel arf mewn amrywiaeth o leoliadau er mwyn mabwysiadu dull rhagweithiol o weithredu i ddiogelu hawliau pobl hŷn.

Mae hawliau pobl hŷn wedi'u cynnwys mewn llawer o offerynnau, ar lefel ddatganoledig, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r ddau brif faes yr hoffwn ganolbwyntio arnynt yn yr ymateb hwn yn ymwneud ag effaith ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd a'r posibilrwydd y bydd Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cael ei diddymu ar hawliau pobl hŷn.

Effaith ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn ddigwyddiad digynsail ac mae'n rhy gynnar o hyd inni fod yn eglur ynghylch yr effaith y gallai hyn ei gael ar hawliau dynol, yn ogystal ag ar nifer o faterion eraill. Cynhaliodd Cyd-bwyllgor Dau Dŷ'r Senedd ar Hawliau Dynol ymchwiliad byr i oblygiadau Brexit o ran hawliau dynol[8] ac roedd ei adroddiad yn datgan yn glir y bydd gan ymadawiad y DU oblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol o ran hawliau dynol.

Mae'n bosibl y gallai ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd olygu y bydd unigolion yn y DU yn colli nifer o hawliau sy'n cael eu sicrhau drwy gyfrwng cyfarwyddebau a rheoliadau'r UE. Bydd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn trosi cyfraith yr UE fel y mae ar yr adeg pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn gyfraith ddomestig.[9] Mae'r Bil yn cynnig dulliau o ddiwygio'r gyfraith honno wedi hynny, gan gynnwys defnyddio'r pwerau a elwir yn 'bwerau Harri'r VIII', sy'n caniatáu i Weinidogion y Goron ddiwygio Deddfau Seneddol heb ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae hon yn dasg mor sylweddol fel bod perygl y bydd yn tynnu hawliau oddi ar bobl oni bai y ceir dadansoddi a chraffu trwyadl. Byddai arnaf angen rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth y DU ynghylch y broses y byddant yn ei defnyddio er mwyn gallu cynnal asesiad manwl o'r effaith ar hawliau dynol pobl hŷn.

Ystyriaeth arall yw bod llawer o'r hawliau sydd gan bobl hŷn dan gyfreithiau'r UE wedi'u hategu gan gyfraith achosion Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Yr wyf yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i gynnal cyfraith achosion cyn gadael ar gyfer cyfreithiau'r UE a ddargedwir ar yr un statws â phenderfyniadau Goruchaf Lys y DU.[10] Fodd bynnag, erys yn aneglur a fydd cyfraith achosion Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ar ôl gadael yn cael ei hystyried gan lysoedd y DU fel y mae'n berthnasol i gyfreithiau'r UE a ddargedwir.

Y tu hwnt i'r gyfraith, ceir hefyd lawer o rwydweithiau a chymunedau ymchwil ledled Ewrop sy'n gweithio ar hyn o bryd ar ddatblygu a chyflwyno polisïau mewn perthynas â hawliau dynol; nid yw'n eglur a fyddai'r DU yn parhau i gyfrannu tuag at hyn.

Nododd y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol y bu canolbwyntio sylweddol ar warantu hawliau gweithwyr, sydd ar hyn o bryd yn cael eu diogelu dan gyfraith yr UE, wedi i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ond mai ychydig iawn o sôn a fu am yr hawliau eraill sy'n cael eu diogelu dan Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd, megis y rhai sy'n ymwneud â gwahaniaethu.[11] Er bod llawer o'r Siarter yn adlewyrchu hawliau sydd eisoes wedi'u cynnwys mewn offerynnau eraill, megis y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ceir llawer o hawliau sy'n cael eu cryfhau gan y Siarter, gan gynnwys rhai yn ymwneud â phobl hŷn. Mae Erthygl 25 y Siarter yn cydnabod hawl pobl hŷn i fyw bywyd llawn urddas ac annibyniaeth ac i gyfrannu at fywyd cymdeithasol a diwylliannol.[12] Nid

yw'r hawl hon yn cael ei diogelu mewn cyfraith ddomestig ar lefel gyfansoddiadol[13] ac yr wyf yn sicr na fyddai pobl hŷn yn dymuno gweld hawliau o'r fath yn cael eu tynnu oddi arnynt.

Yn ffodus, mae'r Siarter wedi cael mwy o sylw yn ystod y misoedd diwethaf, yn rhannol yn sgil diwygiadau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a gyflwynwyd gan Dominic Grieve AS. Mae hyn wedi rhoi mwy o ffocws ar yr hawliau a geir ynddi a phwysigrwydd cadw'r hawliau hyn mewn cyfraith ddomestig.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn eglur na ddylai'r ffaith fod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd olygu bod mesurau diogelu hawliau dynol yn cael eu gwanhau a'i bod yn bryderus nad yw Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn cynnwys darpariaeth i ddiogelu'r Siarter.[14]

Mae penderfyniad Llywodraeth y DU na ddylai'r Siarter gael ei chadw mewn cyfraith ddomestig oherwydd mai'r unig beth a wna yw dyblygu hawliau a geir mewn cytuniadau rhyngwladol eraill[15] yn dangos diffyg dealltwriaeth o arwyddocâd codeiddio hawliau yn y modd hwn. Drwy ddwyn yr hawliau hyn ynghyd yn y Siarter, sydd â'r un statws cyfreithiol â Chytuniadau'r UE, maent yn dod yn fwy hygyrch i bobl ac yn rhoi mwy o eglurder iddynt ynghylch beth yw eu hawliau.

Yn ogystal â'r effeithiau uniongyrchol hyn ar hawliau pobl hŷn, mae'n hanfodol nad yw'r broses o adael yr Undeb Ewropeaidd yn arwain at ddiwylliant o wrthwynebu popeth sy'n 'Ewropeaidd', ac yn bwysicaf oll yn y cyd-destun hwn, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.[16] Er mai Cyngor Ewrop (sy'n gorff ar wahân i'r Undeb Ewropeaidd) a greodd y Confensiwn, mae'n aml yn cael ei drafod mewn cysylltiad agos â'r trafodaethau ynghylch aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Bu galwadau gan aelodau uchel o Lywodraeth y DU, gan gynnwys y Prif Weinidog ei hun, am i'r DU roi'r gorau i fod yn un o lofnodwyr y Confensiwn. Byddai hyn yn niweidiol nid yn unig i hawliau pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru a'r DU ond i statws y DU yn y byd.

Wedi i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, y Confensiwn fydd yr offeryn pwysicaf a fydd yn diogelu hawliau unigolion yn y DU rhag cael eu newid gan Senedd y DU. Er mwyn i fesurau hawliau dynol fod ar eu mwyaf effeithiol, rhaid iddynt fod yn gyffredinol i bawb. Dim ond drwy gynnal

ymrwymiad y DU i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol y gall hawliau gael eu diogelu pan roddir terfyn ar oruchafiaeth cyfraith yr UE.

Effaith y cynnig i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 a chyflwyno Deddf Hawliau'r DU yn ei lle

Yr wyf wedi datgan yn gyson ac yn glir nad wyf yn cefnogi'r cynnig i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Er nad yw'r Ddeddf yn berffaith, mae wedi dod â'r hawliau dynol sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i lysoedd domestig y DU ac wedi gwneud cyfiawnder yn fwy hygyrch i ddinasyddion Prydain.

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol, er ei bod yn gymwys i bawb, yn diogelu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas rhag camdriniaeth, gan gynnwys pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a phobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r Ddeddf wedi cyfrannu tuag at wella bywydau pobl hŷn mewn llawer o ffyrdd drwy ddiogelu eu hawliau dynol sylfaenol, fel y gwelir yn yr enghreifftiau isod.

Erthygl 3: Yr hawl i fod yn rhydd rhag triniaeth greulon a diraddiol

Aethpwyd â gŵr 89 mlwydd oed i'r ysbyty yn dioddef o ddiffyg hylif a rhwymedd. Dechreuodd ei gyflwr ddirywio. Parhaodd yr ysbyty i roi triniaeth boenus iddo ar gyfer ei rwymedd, er gwaethaf y ffaith ei bod yn achosi iddo grio mewn poen yn barhaus. Ar fwy nag un achlysur, canfu ei deulu ef, ar adeg ymweld, mewn gofid amlwg, a dim yn ei orchuddio o'i ganol i lawr. Daeth ei blant yn gynyddol ofidus ynghylch y modd yr oedd eu tad yn cael ei drin, ond nid oedd yr ysbyty yn ymateb i'w cwynion. Wedi 5 wythnos yn yr ysbyty bu farw'r gŵr o niwmonia.

Ysgrifennodd y teulu at brif weithredwr yr ysbyty, gan anfon copïau at yr AS lleol ac Age Concern, yn cwyno ynghylch y modd y cafodd eu tad ei drin ac yn tynnu sylw at y ffaith y gallai'r modd y bu i'r ysbyty drin eu tad dorri ar ei hawl i beidio â chael ei drin mewn modd creulon neu ddiraddiol. Yn anffodus, roedd hi'n rhy hwyr i'w tad gael triniaeth fwy urddasol, ond mewn ymateb manwl cafodd llawer o ddiffygion eu cydnabod, a dywedwyd y byddent yn dysgu gwersi ar sail yr achos hwn.

Ffynhonnell: Sefydliad Hawliau Dynol Prydain – Your Human Rights: A

Guide for Older People[17]

Erthygl 5: Yr hawl i ryddid ac Erthygl 8: Yr hawl i barch i fywyd teuluol a phreifat, cartref a gohebiaeth

Roedd P yn ŵr 91 mlwydd oed fu'n ymladd yn yr Ail Ryfel Byd. Roedd ganddo broblemau iechyd, gan gynnwys dementia, ond roedd yn hoff o fyw yn ei gartref ei hun, lle roedd yn gweld ei ffrindiau ac yn mwynhau edrych ar ôl ei gath. Daeth rhai o ffrindiau P yn bryderus ei fod yn cael ei gam-drin yn ariannol ac roeddent yn pryderu hefyd am ei allu i edrych ar ei ôl ei hun.

Yna gweithredodd ei gyngor lleol, gan olygu iddo gael ei gadw mewn uned dan glo am 17 mis. Er bod y cofnodion yn dweud bod P wedi mynd gyda hwy o'i wirfodd, roedd yn amlwg yn amharod i wneud hynny, ac yn ofidus. Ceir anghydweld ynghylch y ffeithiau ond dywedir bod P yn gwisgo ei got nos ar y pryd, heb drowsus na gwaelod pyjamas.

Aethpwyd â'r achos i'r llys, lle penderfynwyd bod y driniaeth a gafodd P gan y cyngor yn torri ei hawliau dynol o safbwynt rhyddid a pharch i fywyd preifat a theuluol (Erthyglau 5 ac 8). Dywedwyd bod yr achosion hyn o dorri ei hawliau dynol wedi eu gwaethygu gan y ffaith, pe na byddent wedi digwydd, y byddai P wedi gallu parhau i fyw gartref, lle roedd yn hapus, gyda chymorth.

Dyfarnwyd £60,000 i P gan y cyngor fel iawndal am garcharu ar gam. Ond yn bwysicaf oll, bu'n bosibl iddo ddychwelyd adref, a chafodd ei aduno â'i ffrindiau a'i gath. Bellach mae ganddo'r pecyn cymorth gofal cywir a dywedir ei fod yn hapus ac yn fodlon ei fyd.

Ffynhonnell: Sefydliad Hawliau Dynol Prydain – 'Getting justice for a war veteran unlawfully detained by the Council'[18]

Wedi llawer o oedi o ran cynigion gan Lywodraeth y DU, mae'n aneglur sut beth fyddai'r Ddeddf Hawliau Prydeinig sy'n cael ei chynnig. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, o ddogfen bolisi'r Blaid Geidwadol, *Protecting Human Rights in the UK*, [19] mae tri maes yn benodol yn peri'r pryder mwyaf.

Mae'r maes cyntaf yn ymwneud â'r awydd o fewn y diwygiadau i 'egluro' rhai o hawliau'r Confensiwn. Ofnaf y bydd hyn yn glastwreiddio ac yn gwanhau rhagor ar rai o'r hawliau a geir yn y Confensiwn a'i gwneud hi'n anos cyflwyno hawliadau ynghylch cam-drin hawliau dynol pobl hŷn.

Yn gysylltiedig â hyn y mae'r cynnig i gyfyngu ar y defnydd o gyfreithiau hawliau dynol i'r achosion mwyaf difrifol. Rhaid i hawliau dynol, yn unol â'u natur, fod yn gyffredinol i bawb a dylent fod yn gymwys i bob dinesydd, waeth beth yw 'difrifoldeb' canfyddedig yr achos. Rhaid inni ddangos ymrwymiad i gynnal egwyddor cymhwysedd i bawb.

Mae'r ddogfen bolisi hefyd yn nodi, pe na byddai Llywodraeth y DU yn gallu dod i gytundeb gyda Chyngor Ewrop ynghylch a yw ei Deddf Hawliau arfaethedig yn gyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, na fyddai ganddi ddewis ond tynnu'n ôl o'r Confensiwn.[20] Mae'r dull hwn o weithredu yn beryglus o ran diogelu hawliau dynol yn y DU.

Yr wyf wedi gweithio gyda chyd-weithwyr o Sefydliad Hawliau Dynol Prydain[21] i wneud datganiadau clir o ymrwymiad i gadw'r Ddeddf Hawliau Dynol ac yr wyf yn cefnogi galwadau gan gyrff eraill megis Liberty i frwydro i gadw'r Ddeddf.[22]

Oherwydd y dull gwahanol a fabwysiadwyd tuag at gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth y DU gyflawni ei hymrwymiad i ymgynghori'n eang â'r cenhedloedd datganoledig os mai'r bwriad yw cyflwyno cynlluniau i ddiddymu'r Ddeddf a chyflwyno Deddf Hawliau Brydeinig.[23]

Casgliad

Mae llawer o heriau o'n blaenau a fydd yn rhoi prawf ar ein hymrwymiad i hawliau dynol i bawb yn y wlad hon. Nid oes unrhyw fan canol o ran mabwysiadu dull o ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus sy'n seiliedig ar hawliau: rydych chi naill ai'n ymroddedig i ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol, neu dydych chi ddim.

Mae'r posibilrwydd o golli'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yng nghyfraith yr UE, y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn golygu bod yn rhaid i gefnogwyr hawliau dynol godi eu llais i sicrhau bod yr hawliau hyn yn cael eu cadw.

Byddaf yn parhau i bleidio achos dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus ac i gryfhau a hyrwyddo rhagor ar hawliau pobl hŷn. Gobeithiaf y byddwch yn rhoi ystyriaeth i'm tystiolaeth wrth ichi symud ymlaen â'ch Ymchwiliad.

Llyfryddiaeth

[1] Y Cenhedloedd Unedig (1991) 'United Nations Principles for Older Persons'

[2] Llywodraeth Cymru (2014) 'Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru'

[3] Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (2013) 'Dyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru' Cynulliad Cenedlaethol Cymru; t. 9

[4] Deddf Cymru 2017; a. 44-45

[5] Comisiynydd Plant Cymru (2017) 'CCUHP – Rhestr o Hawliau Plant'; Cyrchwyd: 8 Ionawr 2018; https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp-hawliau-plant

[6] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; a. 7

[7] Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016; a. 42(4)

[8] Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (2016) 'The Human Rights implications of Brexit' Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi

[9] Tŷ'r Cyffredin (2017) 'European Union (Withdrawal) Bill Explanatory Notes'

[10] Llywodraeth EM (2017) 'Enforcement and dispute resolution: A Future Partnership Paper' t.9

[11] Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (2016) 'The Human Rights implications of Brexit' Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi; t. 6

[12] Yr Undeb Ewropeaidd (2012) 'Charter of the Fundamental Rights of the European Union'

[13] Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2017) 'The European Union (Withdrawal) Bill' t.3

[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) 'Y Cyfarfod Llawn: Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol' Jeremy Miles AC, Cwnsler Cyffredinol Cymru; 10 Ionawr 2018; C1 http://record.assembly.wales/Plenary/4895#A40787

[15] Adran Gadael yr UE (2017) 'The Repeal Bill: Factsheet 6: Charter of Fundamental Rights' t.1

[16] Cyngor Ewrop (1950) 'Convention for the Protection of Human Rights and Fundamental Freedoms' (Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, fel y'i Diwygiwyd) (ECHR)

[17] Sefydliad Hawliau Dynol Prydain (2010) 'Your Human Rights: A Guide for older people'; Cyrchwyd: 4 Ionawr 2018; https://www.bihr.org.uk/olderpeopleguide

[18] Sefydliad Hawliau Dynol Prydain (2015) 'Getting justice for a war veteran unlawfully detained by the Council'; Cyrchwyd: 4 Ionawr 2018; https://www.bihr.org.uk/FAQs/veteranunlawfuldetention

[19] Y Blaid Geidwadol (2014) 'Protecting Human Rights in the UK' tt. 5-7

[20] Y Blaid Geidwadol (2014) 'Protecting Human Rights in the UK' t. 8

[21] Sefydliad Hawliau Dynol Prydain (2017) 'Human Rights Day 2017'; Cyrchwyd: 4 Ionawr 2018; https://www.bihr.org.uk/together

[22] Liberty (2015) Save Our Human Rights Act'; Cyrchwyd: 4 Ionawr 2018; http://bit.ly/2m7oF6N

[23] Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (2016) 'Oral Evidence: What are the human rights implications of Brexit?' Y Gwir Anrh. Syr Oliver Heald AS, Gweinidog Hawliau Dynol; 23 Tachwedd 2016; C17